**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 03-99(minW)**

**Dyddiad:** 10 Chwefror 2000, am 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Bae Caerdydd

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

*David Melding (Cadeirydd)*
*Brian Hancock Islwyn*
*Gareth Jones Conwy*
*Richard Edwards Preseli Penfro*
*Val Feld Dwyrain Abertawe*
*John Griffiths Dwyrain Casnewydd*
*Christine Humphreys Gogledd Cymru*

*Swyddogion*
*Barbara Wilson Clerc y Pwyllgor*
*Julie Grant Dirprwy Glerc*
*Keith Bush Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol*

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Dyma drydydd cyfarfod y Pwyllgor ond y cyntaf dan gadeiryddiaeth David Melding. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn croesawu'r cyfle i wasanaethu ar y Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'i aelodau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Janet Davies, Gorllewin De Cymru.
2. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o'r camau gweithredu'n deillio o STD-02-99W**

Paratowyd papur gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD03-10-99W.
3. Nododd y Pwyllgor bapur yr Ysgrifenyddiaeth a'r adroddiad llafar ategol yn ymwneud â chlybiau preifat i aelodau (gweithredu eitem 2).

Cardiff County Club

Adroddodd y Clerc fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cyfarfod gyda Chynulliadau/Seneddau eraill, y Comisiynydd Seneddol ar Safonau a chynrychiolwyr o Bwyllgor Neill ar 7 Chwefror. Mynegwyd pryderon y Pwyllgor ynglþn â chlybiau preifat i aelodau ond yr ymateb unfrydol oedd na fu hyn yn broblem yn unrhyw le arall nac yn bwnc a gafodd ei ystyried hyd yn oed. I'r gwrthwyneb, gwelai'r cynrychiolwyr anawsterau mawr o safbwynt gorfodi a diffinio.

Nodwyd fod nifer o anghysonderau'n dod i'r amlwg rhwng gorchymyn sefydlog 4, yr Atodiad a chanllawiau'r Cynulliad ar fuddiannau. Roedd angen cynnal arolwg, a phe byddai'r Pwyllgor yn cytuno, byddai modd edrych ar bwnc clybiau preifat i aelodau fel rhan o'r arolwg hwnnw.

Dywedodd Val Feld ei bod yn fodlon a'i bod hefyd wedi tynnu sylw'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal at y mater. Cytunwyd felly â'r cynnig. [Trafodwyd ymhellach dan eitem 3]

**Eitem 3: Cofnod o Fuddiannau Aelodau a Chanllawiau**

4. Adroddiad llafar a phapurau STD03-11-99W a STD03-12-99W oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth.

Y Gofrestr

Nodwyd y byddai'r adroddiad chwarterol nesaf ar y gofrestr o fuddiannau aelodau'n cael ei gyhoeddi ddiwedd Chwefror. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, byddai'r rhagair yn tynnu sylw'r darllenydd at y ffaith fod rhai Aelodau'n dal i fynnu cofrestru mwy na'r hyn sy'n rhaid iddynt mewn gwirionedd. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod y Swyddfa Gyflwyno wedi gofyn i Aelodau adolygu cofrestriadau di-angen ac wedi gweld newid mewn arferion o ganlyniad i hynny. Serch hynny, roedd rhai Aelodau'n dal i ddymuno arfer eu hawl i "ddweud popeth".

Nawdd

Aeth Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol drwy'r papur (STD03-11-99W) gan dynnu sylw at y prif bwyntiau. Diwedd y gân oedd nad yw cymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu gan blaid wleidyddol yn gyfystyr â nawdd, ac felly nid oedd angen ei gofrestru fel treuliau etholiad nac fel cymorth parhaus. Roedd cymorth gan Undeb Llafur yn faes gwahanol, fodd bynnag, ac roedd angen ei gofrestru. [Mewn gwirionedd, roedd y gofrestr yn dangos mai dyma fu'r Aelodau'n ei wneud hyn yn hyn.] Nid oedd "hunan-nawdd" yn syniad oedd yn berthnasol i'r diffiniad o nawdd yng ngorchymyn sefydlog 4.

Cadarnawyd hefyd y dylid cofrestru yn achos Aelod oedd yn sefyll etholiad fel aelod annibynnol o blaid wleidyddol (ond nid fel ymgeisydd swyddogol) ac yn derbyn cymorth ariannol gan y blaid honno. Cytunodd y Pwyllgor y dylid dosbarthu'r cyngor a gynhwyswyd yn y papur fel canllaw i Aelodau.

Datgan Buddiannau a Phleidleisio

Yn ei gyfarfod diwethaf gofynnodd y Pwyllgor am gyngor pellach ynglþn â pha mor aml y dylid datgan buddiannau a pha mor fanwl ddylid bod. Diben papur STD03-12-99W oedd delio â hyn a'r pwnc cysylltiedig o bleidleisio.

Anhawster hyn oll oedd clustnodi'r grðp o bobl a allai fanteisio yn sgil unrhyw benderfyniad. A fyddai'r penderfyniad yn rhoi mwy o fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod nag i'r grðp yn gyffredinol? Roedd yn anodd bod yn fanwl ac roedd y canllawiau wedi mynd bron cyn belled ag yr oedd modd – yn y pen draw, mater i'r Aelodau unigol ydoedd. O gofio y gallai peidio â chydymffurfio arwain at achos troseddol, y cyngor gorau y gellid ei roi oedd i beidio â phleidleisio os oes gennych unrhyw amheuaeth.

Nodwyd nad oes gan Senedd Yr Alban reol o'r fath. Pe byddai Aelod yn methu â datgan a/neu bleidleisio yna gallai'r Aelod hwnnw gael ei eithrio. Hefyd nid oes unrhyw beth yn y llyfr rheolau sy'n dweud na all Aelodau bleidleisio – dim ond bod rhaid iddynt ddatgan budd. I'r gwrthwyneb, mae deddfwriaeth llywodraeth leol yn dweud bod rhaid i aelodau sydd â "budd ariannol" adael yr ystafell yn ystod trafodaethau a/neu bleidleisiau sy'n berthnasol i'r budd hwnnw.

Eglurodd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol nad yw bod â budd yn atal Aelod rhag cymryd rhan; ymwneud â chymryd penderfyniadau y mae'r rheol gaeth. Bod yn rhy ofalus oedd yr arfer o roi cyfle i Aelodau'r Cynulliad ddatgan unrhyw fuddiannau ar y ffurflenni Cwestiwn Cynulliad. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr agwedd hon a chytunwyd y dylid atgoffa Aelodau o'r angen i ddatgan budd wrth ofyn cwestiynau ategol yn y Siambr [rhywbeth nad oedd wedi digwydd hyd yn hyn].

Pwysleisiodd Richard Edwards y pwynt a wnaeth yn y cyfarfod blaenorol, sef bod rheolau'r Cynulliad yn ymddangos yn llai caeth na'r rhai sydd mewn grym ym maes llywodraeth leol, ac efallai bod angen newid y gorchmynion sefydlog.

Eglurwyd bod rheolau'r Cynulliad yn gyfaddawd rhwng gofynion gweddol eang San Steffan a'r agwedd gaeth iawn ym maes llywodraeth leol. Roedd y rhain yn deillio o wahanol gyfrifoldebau. Egwyddorion cyffredinol a deddfwriaeth sy'n cael eu hystyried yn San Steffan, tra bo penderfyniadau penodol ym maes llywodraeth leol yn fwy tebygol o gael effaith uniongyrchol ar unigolion. Er mwyn sicrhau gonestrwydd dylid ceisio mabwysiadu dull tebycach i fodel llywodraeth leol ond roedd rhaid cydnabod cylch gorchwyl a phwerau ehangach y Cynulliad wrth lunio'r system. Gallai mabwysiadu model llywodraeth leol yn ei grynswth gael effaith sylweddol ar allu Aelodau i gymryd rhan yn y trafodaethau.

Roedd yn amlwg o'r drafodaeth bod yr holl bwnc yn peri pryder a bod teimlad ymhlith rhai bod safonau dwbl yn bodoli. Amlinellodd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd eu cynnig [a drafodwyd yn fyr dan eitem 2] y dylid adolygu gorchymyn sefydlog 4, yr atodiad i'r gorchmynion sefydlog a'r Canllawiau i Fuddiannau Aelodau, a fabwysiadodd y Cynulliad ym mis Mai 1999. Gellid gwneud hyn fel rhan o arolwg blynyddol y Pwyllgor a nodi'r canlyniad yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cynulliad ym mis Medi.

Croesawodd y Pwyllgor y cynnig, yn amodol ar ymgynghoriad llawn gyda'r Aelodau a/neu'r pleidiau er mwyn clustnodi'r diffygion a'r newidiadau arfaethedig. Yn y tymor byr, cytunwyd y dylai'r Ysgrifenyddiaeth gyhoeddi canllawiau ychwanegol ynglþn â'r pynciau penodol a godwyd gan y Pwyllgor, gan amgáu nodyn yn hysbysu'r Aelodau o fwriad y Pwyllgor i gynnal arolwg llawn.

Gweithredu

Yr Ysgrifenyddiaeth i weithredu'r argymhellion ym mharagraffau 6,10 ac 11 o STD-3-12-99W fel y cytunodd y Pwyllgor. Yn amodol ar:

1. Hysbysu'r Aelodau o'r Arolwg
2. Pwysleisio'r "rheol euraid" ym mharagraff 11 o'r cyngor sylfaenol drafft.

**Eitem 4: Trefn Gwyno'r Cynulliad**

5. Amlinellodd yr Ysgrifenyddiaeth yr ymatebion a dderbyniwyd (papur STD-03-13-99W) a'r ymateb hwyr oddi wrth y Blaid Lafur. Roedd 2 bryder gan y blaid honno – yn gyntaf, bod y drefn yn cael ei chwblhau cyn penodi Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau, ac yn ail, na ddylid ystyried ymestyn y drefn i gwynion ynglþn ag ansawdd y gwasanaeth a roddir gan Aelod o'r Cynulliad.

6. Cytunodd y Pwyllgor na fu'n fwriad ganddynt erioed i wneud unrhyw benderfyniad terfynol nes i'r Ymgynghorydd ddechrau ar ei waith a chael cyfle i gynnig sylwadau ar y drefn. Hefyd dylai cwynion ynglþn â swyddogaeth Aelodau fod y tu hwnt i gyfrifoldeb y Pwyllgor ac felly dylid eu diystyru yn ystod y cam cyntaf.

*Y sylwadau*

*7. Cynigiodd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol syniadau ynglþn â ffyrdd posibl o ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd:*

1. Nid oedd problem o safbwynt hysbysu'r Aelod y gwnaed cwyn yn ei erbyn pan dderbyniwyd cwyn. Ond gan fod goblygiadau troseddol i rai cwynion o bosibl, y byddai angen tynnu sylw'r heddlu atynt yn gyntaf, roedd angen hysbysu'r Aelod ar ôl y cam cychwynnol.
2. Roedd goblygiadau meddygol i'r gair "triage" ond byddai'n hawdd dod o hyd i air mwy niwtral yn lle "filter out".
3. Yn ôl y gorchmynion sefydlog, mae gan Aelodau y gwneir cwyn yn eu herbyn hawl i ddod â rhywun gyda hwy i unrhyw wrandawiad gerbron y Pwyllgor. Nid oes unrhyw ddiffiniad o bwy ddylai'r unigolyn fod, felly gallai gynnwys cyfreithiwr. Arfer da fyddai gwneud hyn yn gynharach yn y broses gan gynnwys y cyfweliadau gyda'r Ymgynghorydd Annibynnol.
4. Byddai'n anodd pennu amserau targed ar gyfer cwblhau unrhyw gamau gweithredu a all fod y tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor (ee ystyriaeth o gðyn gan yr heddlu).

8. Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n gyffredinol â'r ymatebion arfaethedig, ac eithrio sylw 4). Cafwyd peth trafodaeth ynglþn ag amserlenni targed a chytunwyd y dylid ystyried pennu dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r gwahanol gamau. Camau nesaf – ni ddylid gweithredu ymhellach nes i'r Ymgynghorydd ddechrau yn ei swydd.

9. Roedd pryder bod y drefn ddrafft (a gymerwyd o'r gorchmynion sefydlog) yn cymryd yn ganiataol y byddai'r gðyn yn cael ei chyflwyno i'r Llywydd yn y lle cyntaf. Beth fyddai'n digwydd pe byddai cwyn yn cael ei derbyn yn erbyn y Llywydd? Sut fyddai'n cael ei thrin? Roedd yn hanfodol amddiffyn hawliau'r Llywydd fel Aelod a'i drin yn deg. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod gwaith ar y gweill i newid y gorchmynion sefydlog i egluro swyddogaeth y Dirprwy Lywydd wrth "ddirprwyo" ar ran y Llywydd. Pe byddai cwyn yn cael ei derbyn am y Llywydd, yna'r Dirprwy fyddai'n delio â hi yn y lle cyntaf, cyn dilyn y trefniadau arferol (sef cyfeirio at yr Ymgynghorydd Annibynnol ac ati).

**Eitem 5: Penodi Ymgynghorydd y Cynulliad ar Safonau**

10. Rhoddodd yr Ysgrifenyddiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor ynglþn â'r penodiad. Roedd Aelodau wedi derbyn manylion yr ymgeiswyr a'r rhestr fer. Trefnwyd cyfweliadau ar gyfer 14 Chwefror 2000.
11. Roedd Val Feld yn anfodlon fod y Llywydd wedi penderfynu gwrthod penderfyniad y Pwyllgor i gynyddu cynrychiolaeth y paneli hidlo a chyfweld i un Aelod o bob plaid (yn hytrach na dim ond y Cadeirydd). Adleisiodd nifer o Aelodau'r Pwyllgor ei sylwadau gan eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig fod pob plaid yn llwyr gefnogi pob penodiad. Eglurodd y Clerc fod y Llywydd yn awyddus i gadw'r panel penodi'n fach. Cytunwyd felly y byddai arweinwyr y pleidiau'n cael gwybod pwy yw'r ymgeisydd sy'n cael ei ffafrio cyn cadarnhau'r penodiad yn ffurfiol, fel eu bod yn cael cyfle i gynnig sylwadau.

Gweithredu

Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi nodyn ar y cyd i'r Cadeirydd a'r Llywydd ei anfon at arweinwyr y pleidiau mor fuan â phosibl ar ôl cynnal y cyfweliadau.

**Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

12. Trefnwyd y cyfarfod chwarterol nesaf am 2pm ar Fai 11eg. Roedd cyfarfod byr hefyd wedi'i drefnu'n fras am 2pm ar Ebrill 13eg. Pwrpas y cyfarfod hwnnw fyddai rhoi cyfle buan i'r Pwyllgor gyfarfod â'r Ymgynghorydd newydd.

Cynhaliwyd sesiwn gaeëdig o'r Pwyllgor wedyn i drafod y rhestr fer o ymgeiswyr.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau***

***Swyddfa'r Llywydd***